

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
11 Mai 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Emyr Williams, Ifor Dylan Williams, Gwyneth Thomas
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ifor Dylan Williams am gael ei urddo i'r Orsedd.

1. YMDDIHEURIADAU

Dim

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Ifor Dylan William a'r Cynghorydd Erddyn Davies ddiddordeb yn eitem 6 – Rhoddion, gan fod gan y Cynghorydd Ifor Dylan Williams gysylltiad efo Canolfan Bro Llanwnda a'r Cynghorydd Erddyn Davies gysylltiad â'r Clwb Pêl Droed.

Datganodd y Cynghorydd Erddyn Davies ddiddordeb yn eitem 7.1. , cais cynllunio Dyffryn, Llanfaglan, gan mai ef oedd yn gwneud y cais. Gadawodd y cyfarfod tra roedd y mater yn cael ei drafod gan fod ganddo fuddiant oedd yn rhagfarnu.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill 2017.

Cynnig: Ifor Dylan Williams
Eilio: Emyr Wiliams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Arwydd Rhes Magdalen

Disgwylir i'r arwydd gael ei osod. Mae'r arwydd newydd yn rhan o archeb o 40 arwydd sy'n cael eu cynhyrchu gyda'i gilydd, a gobeithir y bydd y rhain yn cyrraedd yn fuan. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad.

4.2 Cyflwr Y Ganolfan

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Iwan adroddiad byr ar sefyllfa ariannol Y Ganolfan. Mae angen gwario ar y gegin ac ar y system wresogi. Bydd y Cynghorydd Dafydd Iwan yn darparu prisiau am y gwaith yma yn fuan.

Mae cadw lefel defnydd presennol Y Ganolfan yn hanfodol o ran diogelu incwm, ond nid hawdd hynny gyda thoriadau ariannol cyson yn effeithio ar y mudiadau hynny sy'n defnyddio'r Ganolfan.

Gofynnodd y Cyngorydd Ifor Dylan Williams am gopi o'r cyfrifon ac fe gytunwyd i ddarparu hynny.

4.3 Sgubo Strydoedd Lleol

Mae'r lori sgubo wedi bod i fyny Lôn Groes i'r topiau, ond bu iddi dorri wrth wneud y gwaith, ac felly mae rhan o'r ffordd heb ei glanhau yn iawn. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd pe byddent yn fodlon ail-wneud y darn o'r ffordd sydd heb ei glanhau yn iawn.

4.4 Ceisiadau Cynllunio Jones Bros(C17/0011/19/MW C17/0107/19/LL – sylwadau Cyngor Cymuned Waunfawr

Gofynnwyd i Gyngor Cymuned Waunfawr am gopi o'r e-bost y bu iddynt ei ddanfon at Gyngor Gwynedd, cyn trafod ymhellach.

4.5 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Mynychodd y Clerc gyfarfod rhag baratoi'r ffordd osgoi a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celt ddechrau Ebrill. Pwrpas y cyfarfod oedd gwneud trefniadau ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus a gynhelir ym mis Mehefin. Bydd yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn debygol o bara tair wythnos.

Mae'r Clerc yn parhau i ddisgwyl ateb gan Lywodraeth Cymru am y rhesymau y byddant angen mynediad i Gae Stanley wrth i'r ffordd osgoi gael ei hadeiladu

4.6 Sbwriel o Geir a'r Cerbyd Ailgychu

Ysgrifennodd y Clerc at wasanaeth gwastraff Cyngor Gwynedd yn nodi fod llawer o sbwriel yn cael ei wasgaru ar hyd lonydd gwledig, oherwydd nad yw gweithredwyr y lori ailgyrchu fach yn sicrhau fod y fflapiau ar ochr ycerbyd yn cael eu cau yn iawn. Cytunodd Cyngor Gwynedd y byddant yn atgoffa eu gweithwyr i wneud pob ymdrech i sicrhau na fydd y broblem yn digwydd eto.

Ysgrifennodd y Clerc at McDonald's a Costa yn ogystal, gan fod sbwriel McDonald's a Costa yn amlwg bresennol ymhlith y sbwriel hwnnw sy'n cael ei daflu allan o geir. Ymateb y ddau gwmni oedd eu bod yn ymdrechu i leihau sbwriel ac wedi bod yn cynnal ymgyrchoedd gyda Cadw Cymru'n Daclus. Maent hefyd yn codi sbwriel gerllaw eu tai bwyta yn aml. Fodd bynnag, nid yw'r ymdrechion o gymorth i leihau sbwriel sydd yn cael ei daflu allan o geir yng nghefn gwlad.

Penderfynwyd monitro'r sefyllfa er mwyn gweld os y bydd yna welliant.

4.7 Cyfethol Aelodau

Mae angen cyfethol 6 aelod. Gall y Cynghorydd Sir fod y aelod ychwanegol os nad yw wedi ei gyfethol yn swyddogol.

Gan fod cyfle i gynnal etholiad wedi bod ar 4 Mehefin, nid oes angen rhoi Rhybudd yn rhoi cyfle i etholwyr gynnal etholiad os oes o leiaf 10 am hynny y tro hwn.

Yn hytrach bydd Rhybudd y cae ei osod ar yr hysbysfyrddau yn gofyn i unhyw un sydd â diddorded cael ei gyfethol i'r Cyngor Cymuned roi gwybod i'r Clerc erbyn dydd Gwener 26 Mai.

Gobeithir trafod yr enwau a roddwyd gerbron a chyfethol yng nghyfarfod Mehefin.

5. MATERION ARIANNOL

7. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

7.1 Cais cynllunio C17/0399/19/LL Dyffryn, Llanfaglan. Disodli'r sied gardd bresennol a chodi sied/stiwdio gelf newydd yn ei le

Dim gwrthwynebiad

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Ebrill 2017

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Derbyn taliad cyntaf Praesept 2017/2018 £7,750

5.3 Balans yn y Banc 11 Mai 2017- £15,108.35

6. RHODDION ARIANNOL

Penderfynwyd gwneud y rhoddion canlynol:-

- Canolfan Bro Llanwnda - £50
- Clwb Pêl Droed Bontnewydd - £300
- Eisteddfod Genedlaethol Môn - £50

CYFANSWM £400

8. GOHEBIAETH

Dim gohebiaeth

9. MATERION ERAILL

9.1 Llofnodi ffurflenni derbyn swyddi cynghorwyr newydd

Llofnododd y pum aelod sydd wedi eu hail enwebu ffurflen derbyn swydd.

Cynghorydd Erddyn Davies

Cynghorydd Dafydd Iwan

Cynghorydd Gwyneth Thomas

Cynghorydd Emyr Williams

Cynghorydd Ifor Dylan Williams

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

1 Mehefin am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

